

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Llanrug

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Llanrug o fewn un o ardaloedd mwyaf Cymraeg Cymru ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr naturiol, cyfoethog Cymraeg. Mae disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yn hwyr yn cael eu trochi yn yr iaith ac yn datblygu i fod yn siaradwyr rhugl yn fuan iawn. Mae naws deuluol yn treiddio drwy'r ysgol, sy'n elfen nodweddiadol gyda phawb yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn, ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch diymhongar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig o oedran cynnar iawn ac yn dangos dealltwriaeth aeddfed tuag at holl elfennau o fywyd ysgol. Mae eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad tuag at tasgau yn dda.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm cyfartal ar draws dosbarthiadau. Mae elfen gref o gysondeb yn treiddio trwy ddulliau addysgu'r staff, ac maent yn cydgynllunio ac yn gosod disgwyliadau cyrhaeddiad cytûn. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ysbrydoli'r disgyblion i barhau â'u haddysg adref. Mae gan yr athrawon berthynas waith arbennig â'r disgyblion, gan ofalu amdanynt a'u parchu. Maent yn paratoi ardaloedd dysgu priodol sy'n ddeniadol i'r disgyblion ac yn eu hannog i fod yn chwilfrydig. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Mae'r cynorthwywyr yn cefnogi cynnydd y disgyblion yn fedrus iawn ac yn cynnig cynhaliaeth bwrpasol sy'n bodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei seilio'n gadarn ar Gymreictod, lles disgyblion a chynnal safonau. Mae'r arweinwyr eraill yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn cyflawni eu rolau'n ddeallus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o weithgareddau'r ysgol ac yn defnyddio eu harbenigeddau'n effeithiol er budd y disgyblion. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn eu lle, bod yr adeilad yn cael gofal ac yn sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o flaenoriaethau'r ysgol ac yn datblygu eu gallu i weithio ochr yn ochr â'r staff i werthuso'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae eu cefnogaeth yn atgyfnerthu'r elfen deuluol sy'n perthyn i'r ysgol.

# Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanrug |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 253 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 181 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'nberthnasol) | 34 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 86.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/11/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.